Denise Libretto
Pennaeth Cynllunio
Cynllunio’r Seilwaith Ynni
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
1 Victoria Street
Llundain SW1H 0ET

**Dyddiad:** 5 Chwefror 2020
**Cyswllt:** Eleri Davies
**Ffôn:** 07788 346639
**Ebost:** eleri.davies@innogy.com

5 Chwefror 2020

**Drwy ebost yn unig i Denise.Libretto@beis.gov.uk a Gareth.Leigh@beis.gov.uk**

Annwyl Ms Libretto

**Deddf Trydan 1989 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

**Prosiect Fferm Wynt ac Adfer Cynefinoedd Carnedd Wen: Tynnu Cais Adran 36 yn ôl**

Rwy'n ysgrifennu ar ran yr ymgeisydd, innogy Renewables UK Ltd (innogy), gan gyfeirio at y cais uchod am ganiatâd o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 a chaniatâd cynllunio tybiedig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu â thyrbin gwynt 130-250MW, a gyflwynwyd i’r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ar 11 Rhagfyr 2008.

Mae innogy **yn gofyn yn ffurfiol i'r cais uchod gael ei dynnu'n ôl ar unwaith** ac na ddylai’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) fwrw ymlaen i wneud ailbenderfyniad.

Mae'r diwydiant gwynt ar y tir wedi gweld llawer o newidiadau ers i'r cais gael ei gyflwyno'n wreiddiol. Ar ôl i fecanweithiau cymorth ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer ynni gwynt ar y tir gael eu dileu, mae ar brosiectau newydd angen tyrbinau talach i fod yn economaidd hyfyw heb gymhorthdal. Mae tyrbinau llai sydd ag uchder is a llafnau byrrach, fel y rhai a gynigiwyd ym mhrosiect Carnedd Wen, yn cael eu dirwyn i ben yn raddol gan y gweithgynhyrchwyr ac nid ydynt yn debygol o fod ar gael yn y dyfodol. Mae innogy yn awyddus i adolygu ei gynlluniau ar gyfer safle Carnedd Wen gyda'r bwriad o gyflwyno cais newydd o bosibl ar gyfer cynllun diwygiedig i Lywodraeth Cymru maes o law.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich bod wedi cael y cais hwn ac wedi gweithredu arno.

Yn gywir,

Eleri Davies
Pennaeth Cydsyniadau’r DU
Innogy Renewables UK Limited

***cc.***
*Gwilym Davies (Cyngor Sir Powys)*
*Kee Evans a Paul Maile (Eversheds Sutherland)*